CYNGOR CYMUNED LLANDDAROG COMMUNITY COUNCIL
Mabwysiadwyd 2008, adolygwyd a diweddarwyd Medi 2016

CYNLLUN CYHOEDDI

Mae Cynllun Cyhoeddi Cyngor Cymuned Llanddarog yn seiliedig ar y Cynllun Cyhoeddi Model fel y ddisgrifir isod:

Cynllun Cyhoeddi Model

Paratowyd a chymeradwywyd y cynllun cyhoeddi enghreifftiol hwn gan y Comisiynydd gwybodaeth. Gellir ei fabwysiadu heb ei addasu gan unrhyw awdurdod lleol heb gymeradwyaeth bellach a bydd yn ddilys hyd nes y clywir yn wahanol.

Mae'r cynllun cyhoeddi hwn yn rhwymo awdurdod i ofalu bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd fel rhan o'i weithgareddau busnes arferol. Mae'r wybodaeth a gynhwysir yn perthyn i'r dosbarthiadau o wybodaeth a grybwyllir isod, lle bo'r wybodaeth hon yn cael ei chadw gan yr awdurdod. Rhoddir cymorth pellach o ran y diffiniadau o'r dosbarthiadau hyn mewn llawlyfrau penodol i sector a gyhoeddir gan y Comisiynydd Gwybodaeth.

Mae'r cynllun yn rhwymo awdurdod:

• I gyhoeddi neu wneud ar gael mewn modd arall fel rhan o'i waith arferol wybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth amgylcheddol, a gedwir gan yr awdurdod ac sydd yn perthyn i'r dosbarthiadau isod.

• I enwi'r wybodaeth a gedwir gan yr awdurdod ac sydd yn perthyn i'r dosbarthiadau isod.

• I gyhoeddi neu wneud ar gael mewn modd arall fel rhan o'i waith arferol wybodaeth yn unol â'r datganiadau a gynhwysir yn y cynllun hwn.

• I gynhyrchu a chyhoeddi'r dulliau a ddefnyddir i ofalu bod y wybodaeth benodol ar gael fel mater o drefn fel bod modd i'r cyhoedd ei hadnabod a'i chyrraedd yn hawdd.

• I adolygu a diweddaru'n rheolaidd y wybodaeth mae'r awdurdod yn trefnu ei bod ar gael dan y cynllun hwn.

• I gynhyrchu rhestr o bob ffi a godir i gael mynediad i'r wybodaeth y trefnir ei bod ar gael.

• I drefnu bod y cynllun cyhoeddi ar gael i'r cyhoedd.

Dosbarthiadau o Wybodaeth

P**wy ydym ni a beth a wnawn.**
Gwybodaeth drefniadol, lleoliadau a chytundebau, rheolaeth gyfansoddiadol a chyfreithiol.

Beth a wariwn a sut y gwariwn ef.
Gwybodaeth ariannol yn ymwneud ag incwm a gwariant amcanol a go iawn, tendro, caffael a chytundebau.

Beth yw ein blaenoriaethau a sut rydym yn perfformio.
Gwybodaeth am strategaethau a pherfformiad, cynlluniau, asesiadau, arolygon ac adolygiadau.

Sut y gwnawn benderfyniadau.
Cynigion polisi a phenderfyniadau. Prosesau'n ymwneud â gwneud penderfyniadau, meini prawf a gweithdrefnau mewnol, ymgynghoriadau.

Ein polisïau a'n gweithdrefnau.
Protocolau ysgrifenedig cyfredol ar gyfer cyflawni ein swyddogaethau a'n cyfrifoldebau.

Rhestrau a Chofrestrau.
Gwybodaeth a gedwir mewn cofrestrau a fynnir gan y gyfraith a rhestrau eraill yn ymwneud â swyddogaethau'r awdurdod.

Y Gwasanaethau a Gynigiwn.
Cyngor a chanllawiau, llyfrynnau a thaflenni, gweithrediadau a datganiadau i'r wasg. Disgrifiad o'r gwasanaethau a gynigir.

Ni fydd y dosbarthiadau gwybodaeth yn gyffredinol yn cynnwys:

• Gwybodaeth y rhwystrir ei datgelu gan y gyfraith neu sydd wedi'i heithrio dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, neu a ystyrir yn briodol fel arall ei bod wedi'i diogelu rhag gael ei datgelu.
• Gwybodaeth ar ffurf drafft.
• Gwybodaeth nad yw bellach ar gael yn hawdd oherwydd ei bod mewn ffeiliau a storiwyd mewn archif, neu sydd yn anodd ei chyrraedd am resymau tebyg.

Y dull a ddefnyddir i beri bod y wybodaeth a gyhoeddir dan y cynllun hwn ar gael

Bydd yr awdurdod yn nodi'n glir i'r cyhoedd pa wybodaeth a gynhwysir yn y cynllun hwn a sut y gellir ei chael.

Pan fo o fewn gallu awdurdod cyhoeddus, darperir y wybodaeth ar wefan. Pan fo'n anymarferol i drefnu bod gwybodaeth ar gael ar wefan neu pan na fo unigolyn yn dymuno cyrraedd y wybodaeth ar y wefan, bydd yr awdurdod cyhoeddus yn nodi sut y gellir cael gwybodaeth drwy ddull arall ac yn ei darparu drwy'r dull hwnnw.

Mewn amgylchiadau eithriadol mae'n bosibl na fydd modd cael gwybodaeth ond drwy ei gweld yn bersonol. Pan nodir y dull hwn, darperir manylion cysylltu. Trefnir apwyntment i weld y wybodaeth o fewn cyfnod rhesymol.

Darperir gwybodaeth yn yr iaith y cedwir hi ynddi neu mewn unrhyw iaith arall y mae'n gyfreithiol ofynnol ei chael. Pa fo gofyn i awdurdod gyfieithu gwybodaeth yn ôl y gyfraith, bydd yn gwneud hynny.

Ufuddheir i rwymedigaethau dan ddeddfau anabledd neu wahaniaethu ac unrhyw ddeddfau eraill i ddarparu gwybodaeth ar ffurfiau ac mewn fformatau eraill pan ddarperir gwybodaeth yn unol â'r cynllun hwn.

Taliadau y gellir eu codi am wybodaeth a gyhoeddir dan y cynllun hwn

Pwrpas y cynllun hwn yw peri bod cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl ar gael yn hawdd i'r cyhoedd gyda chyn lleied o anghyfleustra a chost ag sy'n bosibl. Bydd y taliadau a godir gan yr awdurdod am ddeunydd a gyhoeddir fel mater o drefn yn cael eu cyfiawnhau a byddant yn dryloyw ac mor isel ag sy'n bosibl.

Darperir deunydd a gyhoeddir ac a gyrhaeddir ar wefan yn ddi-dâl.
Gellir codi tâl am wybodaeth sydd yn atebol i system daliadau a bennir gan y Senedd.
Gellir codi tâl am alldaliadau go iawn a gyfyd fel:

• llungopïo
• postio a phecynnu
• y costau a gyfyd yn uniongyrchol o ganlyniad i weld gwybodaeth

Gellir codi taliadau hefyd am wybodaeth a ddarperir dan y cynllun hwn lle awdurdodir hwy yn gyfreithiol, lle gellir eu cyfiawnhau dan bob amgylchiadau, gan gynnwys egwyddorion cyffredinol yr hawl i gael mynediad i wybodaeth a gedwir gan awdurdodau cyhoeddus, a lle maent yn unol â rhestr neu restrau cyhoeddedig o ffioedd sydd ar gael yn hawdd i'r cyhoedd.
Os codir tâl, rhoddir cadarnhad o'r taliad dyledus cyn darparu'r wybodaeth. Gellir gofyn am y tâl cyn darparu'r wybodaeth.

Ceisiadau Ysgrifenedig
Gellir gwneud cais ysgrifenedig am wybodaeth a gedwir gan awdurdod cyhoeddus ac sydd heb ei chyhoeddi dan y cynllun hwn, ac ystyrir ei darparu yn unol â darpariaethau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

Yr wybodaeth sydd ar gael gan Gyngor Cymuned/Llanddarog o dan y cynllun cyhoeddi enghreifftiol

Yr wybodaeth sydd i'w chyhoeddi	**Sut i gael yr wybodaeth**	**Cost** Pob copi called 10c y daflen
Dosbarth 1 - Pwy ydyn ni a beth yw'n gwaith ni		
Pwy yw pwy ar y Cyngor	copi caled neu drwy arolwg.Cyfeirir hefyd at y cofnodion a/neu wefan	
Manylion cysylltu y Clerc ac aelodau'r Cyngor	copi caled neu drwy arolwg.Cyfeirir hefyd at y cofnodion a/neu wefan	
Beth yr ydym yn ei gwneud	copi caled neu drwy arolwg.Cyfeirir hefyd at y cofnodion a/neu wefan	
Dosbarth 2 – Faint rydyn ni'n ei wario a sut		
Cyllideb	copi caled neu drwy arolwg.Cyfeirir hefyd at y cofnodion a/neu wefan	
Praesept	copi caled neu drwy arolwg.Cyfeirir hefyd at y cofnodion a/neu wefan	
Incwm a Gwariant	copi caled neu drwy arolwg.Cyfeirir hefyd at y cofnodion a/neu wefan	
Rheoliadau Ariannol	copi caled neu drwy arolwg.Cyfeirir hefyd at y cofnodion a/neu wefan	
Grantiau a roddwyd ac a gafwyd	copi caled neu drwy arolwg.Cyfeirir hefyd at y cofnodion a/neu wefan	

Dosbarth 3 – Beth yw'n blaenoriaethau a sut rydyn ni'n dod ymlaen		
Adroddiadau cyllideb ariannol	copi caled neu drwy arolwg.Cyfeirir hefyd at y cofnodion a/neu wefan	
Ffurflen ac adroddiad blynyddol ac adroddiadau archwilwyr mewnol ac allanol	copi caled neu drwy arolwg.Cyfeirir hefyd at y cofnodion a/neu wefan	
Dosbarth 4 – Sut rydyn ni'n gwneud penderfyniadau		
Agendâu cyfarfodydd	copi caled neu drwy arolwg.Cyfeirir hefyd at y wefan	
Cofnodion cyfarfodydd	copi caled neu drwy arolwg.Cyfeirir hefyd at y wefan	
Adroddiadau a gyflwynwyd i'r Cyngor	copi caled neu drwy arolwg.Cyfeirir hefyd at y cofnodion a/neu wefan	
Dosbarth 5 – Ein polisïau a'n gweithdrefnau		
Amryw (gan gynnwys rheoliadau sefydlog a polisi Iaith Gymraeg	copi caled neu drwy arolwg.Cyfeirir hefyd at y cofnodion a/neu wefan.	
Dosbarth 6 – Rhestrau a Chofrestrau		
Cofrestr o Asedau	copi caled neu drwy arolwg.Cyfeirir hefyd at y cofnodion a/neu wefan.	
Log datgeli diddordeb yr Aelodau	copi caled neu drwy arolwg.Cyfeirir hefyd at y cofnodion a/neu wefan.	
Isiwrant	copi caled neu drwy arolwg.Cyfeirir hefyd at y cofnodion a/neu wefan.	
Dosbarth 7 - Y gwasanaethau rydyn ni'n eu cynnig		
Grantiau i mudiadau ac elusennau	copi caled neu drwy arolwg.Cyfeirir hefyd at y cofnodion a/neu wefan.	
Gwbor y Gymuned/Ieuenctid	copi caled neu drwy arolwg.Cyfeirir hefyd at y cofnodion a/neu wefan.	

RHESTR FFIOEDD

Mae hon yn disgrifio sut y penderfynwyd ar y ffioedd a dylai gael ei chyhoeddi fel rhan o'r canllaw.

MATH O FFI	**DISGRIFIAD**	**SAIL Y FFI**
Ffi i dalu treuliau	Llungopïo @ .10c y ddalen	Yn rhesymol ar sail y farchnad
	Postio	Cost wirioneddol ail ddosbarth safonol y Post Brenhinol
Ffi Statudol	Os yn gymmwys	Yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol (dyfynnwch y statud ei hun)

Manylion Cyswllt

Mr Owain Rhys Enoch
5 Heol Rhosybonwen
Cefneithin
Llanelli
Sir Gar
SA14 7DJ
FFON 07971 40 22 54 E BOST: ccllanddarog@yahoo.co.uk